# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 28/04/2010

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*
[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addsg a Dysgu Gydol Oes

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol

### Effeithlonrwydd y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf

**C8 Chris Franks:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am effeithiolrwydd y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf? OAQ(3)1172(SJL)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (Carl Sargeant):** Yr wyf wedi comisiynu gwerthusiad annibynnol o'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf. Bydd hwn yn edrych ar ganlyniadau a phrosesau'r rhaglen ac i ba raddau y mae'r rhaglen wedi cyflawni ei nodau a'i hamcanion. Mae disgwyl i adroddiad y gwerthusiad gael ei gyhoeddi yng ngwanwyn 2011.

### Atal Trais yn erbyn Menywod

**C9 Nerys Evans:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y strategaeth i atal trais yn erbyn menywod? OAQ(3)1158(SJL)

**Carl Sargeant:** Ar 25 Mawrth, lansiais 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel', ynghyd â chynllun gweithredu cysylltiedig. Strategaeth integredig yw hon sy'n ymwneud â'r agenda ehangach ar drais yn erbyn menywod, ac mae'n gysylltiedig â'n strategaeth bresennol ar gam-drin domestig. Yr wyf wedi cytuno ar £1m ychwanegol i helpu'r agenda hon yn 2010-11.

*Tynnwyd cwestiwn 10, OAQ(3)1176(SJL), yn ôl.*

### Mynediad i Orsafoedd Pleidleisio

**C11 Mike German:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch sicrhau bod pawb yn gallu cael mynediad i orsafoedd pleidleisio? OAQ(3)1195(SJL)

**Carl Sargeant:** Y swyddogion canlyniadau sy'n gyfrifol am sicrhau bod modd i bawb ddefnyddio'r gorsafoedd pleidleisio. Mae gan yr awdurdodau lleol ddyletswydd i gydymffurfio â Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 2005. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cefnogi ac yn hwyluso arferion gorau o ran materion etholiadol drwy ein grŵp cynllunio etholiadau sy'n gwahodd cynrychiolwyr o grwpiau anabledd.

### Hawliau Pobl Anabl

**C12 Paul Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei wneud i hyrwyddo hawliau pobl anabl? OAQ(3)1160(SJL)

**Carl Sargeant:** Yr wyf wedi ymrwymo i sicrhau bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn arwain y gwaith o hyrwyddo cyfle cyfartal i bob dinesydd yng Nghymru.

*Tynnwyd cwestiwn 13, OAQ(3)1181, yn ôl.*

### Tâl Cyfartal

**C14 Eleanor Burnham:** Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i sicrhau tâl cyfartal ar gyfer menywod yn y gweithle? OAQ(3)1166(SJL)

**Carl Sargeant:** Yr wyf yn cyfarfod yn rheolaidd ag arweinwyr yr awdurdodau lleol, gan hyrwyddo'r arfer o ddatrys problemau o ran cyflog cyfartal i ddynion a menywod yn gynnar. Yn ystod y misoedd nesaf, byddaf yn ystyried y ffordd orau y gall darpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010 helpu ymhellach i gulhau'r bwlch cyflog yng Nghymru.

### Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol

**C15 Mark Isherwood**: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisïau i gefnogi canolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol yng Nghymru? OAQ(3)1162(SJL)

**Carl Sargeant:** Lansiais y strategaeth integredig ar drais yn erbyn menywod, 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel', a'r cynllun gweithredu cysylltiedig, ym mis Mawrth. Mae'r cynllun yn cynnwys camau i sicrhau y byddwn yn parhau i helpu'r chwe chanolfan atgyfeirio ymosodiadau rhywiol sydd wedi'u sefydlu yng Nghymru.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

### Pobl nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant

**C12 Mohammad Asghar:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am nifer y bobl ifanc yng Nghymru a ddynodwyd yn bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET)? OAQ(3)1307(CEL)

**Y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes (Leighton Andrews):** Mae data'r arolwg yn dangos nad oedd 12.0 y cant o bobl ifanc 16 i 18 oed (14,000 o unigolion) mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben yn chwarter 3 yn 2009, o'i gymharu â 12.3 y cant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben yn chwarter 3 yn 2008. Mae data o ysgolion yng Nghymru yn dangos nad oedd tua 6 y cant o ymadawyr blwyddyn 11 (2,130 o unigolion) yn 2009 mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ddiwedd mis Hydref 2009, o'i gymharu â 7 y cant y flwyddyn flaenorol.

### Llywodraethu Ysgolion

**C13 Darren Millar :** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am lywodraethu ysgolion? OAQ(3)1320(CEL)

**Leighton Andrews:** Mae llywodraethu ysgolion yn rhan bwysig ac annatod o'r system addysg. Mae llywodraethu da'n sail i ysgolion effeithiol a safonau perfformiad a chyrhaeddiad uchel i ddysgwyr. Yr wyf yn croesawu'r cyfraniad y mae llywodraethwyr yn ei wneud. Yr wyf hefyd yn croesawu cymeradwyo'r Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol ar lywodraethu ysgolion.

*Tynnwyd cwestiwn 14, OAQ(3)1324(CEL), yn ôl.*

## Cyllid Tymor Canolig

**C15 Jenny Randerson:** Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o gyllid tymor canolig ar gyfer addysg yng Nghymru? OAQ(3)1308(CEL)

**Leighton Andrews:** Yr ydym yn gwybod ein bod yn wynebu cyfres gynyddol dynn o gyllidebau yn ystod y blynyddoedd nesaf, ond ein bwriad yw diogelu gwasanaethau rheng flaen, gan gynnwys addysg. Dyna pam yr wyf wedi galw am yr adolygiad o gost gweinyddu addysg a byddaf yn ystyried ein cyllidebau ar gyfer y dyfodol yn ystod y misoedd nesaf.